"Os wyf fi, felly, a minnau'n Arglwydd ac yn Athro, wedi golchi eich traed chwi, fe ddylech chwithau hefyd olchi traed eich gilydd."
(Ioan 13:14)

Mae'r weithred brydferth hon gan Iesu yn arwydd parhaus i ni o'n hangen am ei wasanaeth ef i ni ac yn esiampl i ni o ostyngeiddrwydd a sut i wasanaethu'n gilydd.

Golchi traed

Mae hyn yn digwydd ar ddechrau'r swper, mwy na thebyg. Wrth deithio o Fethania mewn sandalau, mae traed pawb wedi mynd yn llychlyd. Arferiad y cyfnod oedd bod gwestai yn gwneud yn siŵr bod gwas ar gael i olchi traed ymwelwyr oedd wedi teithio. Ceryddodd Iesu Simon y Pharisead, am nad oedd wedi rhoi'r croeso yma iddo (Luc 7.44).

Mae'n amlwg ei fod yn waith digon annifyr a bychanol. Doedd dim gwas yn bresennol y noson honno am nad oedd gwesteion wedi eu gwahodd i'r oruwch-ystafell. Iesu oedd wedi llogi'r ystafell, ac mae'n amlwg mai gwaith y perchennog oedd darparu'r dŵr a'r tywel. Dylai un o'r deuddeg fod wedi golchi traed y gweddill, ond yn anffodus mae'n ymddangos nad oedd neb yn fodlon gwneud y gwaith annymunol, am eu bod yn tybio'i fod yn orchwyl oedd islaw iddynt. Ar y ffordd i Jerwsalem, maen nhw wedi bod yn trafod pwy oedd fwyaf, ac mae mawredd yn uchelgais yn eu calonnau o hyd.

Felly, ar ôl i bawb eistedd, mae Iesu'n codi, yn tynnu ei wisg uchaf gan adael ei wisg isaf. Byddai'n edrych fel gwas dwyreiniol. Clymodd y tywel am ei ganol er mwyn defnyddio'r pen i sychu traed y disgyblion. Dyma ddarlun gwych o Dduw y Mab a ddaeth i'n byd **"gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol"** (Phil. 2:7).

Pedr

Dyma'r unig ddisgybl i brotestio'n agored. Mae'n siŵr bod y lleill wedi eu syfrdanu ac yn llawn cywilydd o weld gweithred Iesu. Roedd y syniad o'i Feistr yn golchi ei draed ef yn wrthun i Simon. Dywedodd Iesu y byddai'n deall yn llawn yn nes ymlaen, hynny yw, ar ôl digwyddiadau'r Pasg. Onid oedd y weithred yma'n ddarlun o ymostyngiad Crist i ddod yn Waredwr i'r ddynoliaeth, yn ddarlun o'i waith achubol ar y groes? Onid dyma'r unig ffordd i gael iachawdwriaeth, sef trwy dderbyn ei wasanaeth parod?

Dal i brotestio mae Pedr, fodd bynnag. Mae'n colli ar ei hun, mae'r

disgybl yn dechrau dweud wrth yr Athro beth i'w wneud, neu beidio â'i wneud; ond mae meddwl Crist ar ei waith achubol. Heb gydnabod ein hangen a derbyn gweinidogaeth y Gwaredwr, nid oes i ni ran yn ei iachawdwriaeth. Dim ond y dŵr a'r tywel sydd ar feddwl Pedr, ac mae'n gofyn yn ofergoelus braidd am gael golchi'r corff cyfan.

Corff a thraed

Mae Iesu'n defnyddio'r darlun o olchi traed i gyfleu neges ysbrydol bwysig. Doedd dim angen bath neu gawod ar y deuddeg ar ôl y daith, dim ond golchi'r traed. Roedden nhw wedi ymolchi drostynt cyn cychwyn ar eu taith, mae'n siŵr. Felly y mae gyda'r Cristion. Mae wedi derbyn glanhad o'i bechod trwy ffydd yn Iesu Grist. Serch hynny, ar ei daith beunyddiol drwy'r byd, mae'n maeddu ei draed. Mae'n cyflawni pechod, mae'n baglu ac yn llithro. Er mwyn cadw'i berthynas â Duw yn glir, mae angen edifeirwch bob dydd ac ymolchi yn ffynnon iachawdwriaeth.

Heddiw rwyf yn frwnt o'r newydd,
rhaid fy ngolchi heddiw'n wyn
yn yr afon a wna'r aflan fel yr eira ar y bryn;
dim nis canna ond dy ddwyfol, nefol waed. (Pantycelyn).

Esiampl

Mae'r Arglwydd yn dweud hefyd ei fod yn gosod esiampl i'r deuddeg, ac i ninnau, wrth gwrs. Nid yn unig mae Iesu wedi dysgu gostyngeiddrwydd i'w ddisgyblion, mae wedi gweithredu gostyngeiddrwydd wrth olchi eu traed. Mae wedi bod yn eu dysgu ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng dulliau'r byd o lywodraethu a dulliau teyrnas Dduw: **"Gwyddoch fod llywodraethwyr y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt,… Ond nid felly y mae i fod yn eich plith chwi; yn hytrach, pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi"** (Math. 20:25-26).

Mae'r weithred hon, fel cameo bach o weithred fawr y groes, yn paratoi'r ffordd ar gyfer y gorchymyn newydd: **"Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd"** (Ioan 13:34).

Deilliodd traddodiad arbennig yn Lloegr o'r weithred yma. Ar ddydd Iau Cablyd roedd y teyrn yn golchi traed y tlodion. Yn anffodus, fe lewygodd Siarl yr Ail gan gymaint y drewdod! Ers hynny, mae'r brenin neu'r frenhines yn rhannu 'Arian Cablyd' i dlodion.

Diolch am agwedd gwas y Gwaredwr; boed i ni gael yr un agwedd.